Cofnodion cyfarfod cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref, Rhuthun, nos Lun, 21 Ionawr 2019, am 7:00pm.

PRESENNOL: Y Cynghorydd Gavin Harris (Dirprwy Faer)
Y Cynghorwyr Stephen Beach, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Menna Jones, Jabez Oakes, Anne Roberts, Dave Snape, Heather Williams, Ifan Wyn ac Emrys Wynne.

168. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Keiran Allsopp-Robson, Ian Lewney a Robert Owen-Ellis.

169. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

170. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer ei fod wedi bod yn y digwyddiadau a ganlyn.

20.12 Beirniadu cystadleuaeth addurniadau Nadolig siopau/busnesau ar ran Ymlaen Rhuthun
05.01 Ymweliad safle Bryn Goodman
11.01 Cyfarfod y Gweithgor Strategaeth Gyfathrebu

171. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Gavin Harris (Dirprwy Faer)	Marchnad Nadolig, cyfarfod Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Rhuthun, Cyngerdd Carolau Cadeirydd Cyngor Sir Ddinbych yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy, ymweliad safle Bryn Goodman, cyfarfodydd gweithgor yr Hen Lys, agoriad swyddogol ffreutur Ysgol Rhuthun, sesiwn Tîm Tref Taclus, Cymanfa Garolau yng Nghapel y Tabernacl a chyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio.
Cyng. Keiran Allsopp-Robson	Cyngerdd Nadolig Ysgol Stryd y Rhos.
Cyng. Stephen Beach	Cyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio a chyfarfod chwarterol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru yng Ngholeg Llandrillo, Llandrillo yn Rhos.
Cyng. Jim Bryan	Cyfarfodydd Pwyllgor Gŵyl Rhuthun, cyfarfod Cymdeithas Gefeillio Rhuthun, cyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio a chyfarfod chwarterol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru yng Ngholeg Llandrillo, Llandrillo yn Rhos.
Cyng. Ken Hawkins	Gwasanaeth angladd y cyn Gynghorydd Eirwyn Evans.
Cyng. Menna Jones	Gwasanaeth angladd y cyn Gynghorydd Eirwyn Evans.
Cyng. Jabez Oakes	Dim i'w adrodd.
Cyng. Robert Owen-Ellis	Dosbarthu hamperi Nadolig y Banc Bwyd, pedair sesiwn Banc Bwyd a chyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio.
Cyng. Anne Roberts	Gwasanaeth Naw Llith a Charolau yn Eglwys Sant Pedr, noson ymaelodi y Cadetiaid Awyr, cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys, cyflwyno gwobrau i enillwyr y gystadleuaeth addurno siopau/busnesau ar ran Ymlaen Rhuthun, cyfarfod gyda'r Cynghorydd Emrys Wynne i benderfynu ar broffil swydd a llunio disgrifiad swydd y Dirprwy Glerc, cyfarfod yr Is-bwyllgor Staffio a chyfarfod Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch.
Cyng. Dave Snape	Cyfarfodydd Pwyllgor Rheoli Theatr John Ambrose.
Cyng. Heather Williams	Cyfarfod Pwyllgor Rheoli Canolfan Awelon.
Cyng. Ifan Wyn	Dim i'w adrodd.
Cyng. Emrys Wynne	Cyfarfod gyda'r Cynghorydd Anne Roberts i benderfynu ar broffil swydd a llunio disgrifiad swydd y Dirprwy Glerc.

172. ADRODDIADAU CYNGHORWYR SIR RHUTHUN

Cyfeiriodd y Cynghorydd Emrys Wynne at y penderfyniad a wnaed i ddiwygio'r mathau o dai ar safle Glasdir. Bydd cam nesaf y datblygiad hefyd yn cynnwys darparu llwybr troed i gysylltu'r ystad gyda'r cae peldroed. Adroddodd bod Cymdeithas Trigolion Glasdir yn weithredol unwaith eto. Hefyd adroddodd am fod mewn trafodaethau i ddatrys y broblem o geir yn parcio ar Ffordd Wrecsam gan achosi anawsterau i lif rhwydd y traffig. Cyfeiriodd y Cynghorydd Bobby Feeley at gartref preswyl Awelon, sydd â phump o drigolion ar ôl yn awr. Adroddodd bod grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i sefydlu i ystyried y dewisiadau, a byddai'n cael ei drafod gan Grŵp Aelodau Ardal Rhuthun ar 18 Chwefror. Addawodd y byddai'r sefyllfa'n cael ei thrin yn sensitive ac nad oedd unrhyw benderfyniad wedi'i wneud o ran dyddiad cau. Hefyd cyfeiriodd at ei chyfarfodydd gyda chynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr; trigolion Trem y Foel i ystyried gweithgareddau rhyng-genhedlaeth gyda disgyblion Ysgol Stryd y Rhos ac ymweliad safle i Bron Parc ynghylch yr uned cynhyrchu wyau buarth arfaethedig.

173. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2018 yn gywir, yn ddarostyngedig i gywiro cofnod 159 yn y fersiwn Gymraeg i nodi 'Cyngor Tref' yn hytrach na 'Cyngor Sir'.*

174. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

175. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Ionawr 2019.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Ionawr 2019.*

176. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Ionawr 2019.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Ionawr 2019.*

177. COFNODION YR IS-BWYLLGOR STAFFIO

Bu'r aelodau'n ystyried cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Ionawr 2019, a'r argymhellion i hysbysu am Ddiprwy Glerc y Dref/Rheolwr y Dref ac y dylid cynyddu cyflog Clerc y Dref i Bwynt 36 LC2 o 1 Ebrill 2019. Trafodwyd hyn, a chynigiwyd ac eiliwyd yr argymhellion.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Ionawr ac i hysbysu am Ddirprwy Glerc y Dref/Rheolwr y Dref a chynyddu cyflog Clerc y Dref i Bwynt 36 LC2 o 1 Ebrill 2019.*

178. DIWEDDARIAD YNGHYLCH YR HEN LYS

Hysbyswyd yr aelodau bod y pryniant wedi'i gwblhau ddydd Gwener, 18 Ionawr, a'r goriadau wedi eu derbyn gan yr asiant, GVA, o'u swyddfa yn Lerpwl. Diolchodd y Cynghorydd Anne Roberts i'r Cynghorydd Gavin Harris am yr oriau o waith roedd wedi'i rhoi i'r prosiect, a diolchodd yntau i'r Cynghorydd Heather Williams am lunio'r datganiad treftadaeth. Cyflwynwyd cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer newid defnydd yr adeilad i'r awdurdod cynllunio, Cyngor Sir Ddinbych. Roedd y Tîm Tref Taclus wedi symud eu hoffer i'r seler, a diolchwyd iddynt am lanhau y tu mewn a'r tu allan i'r adeilad. Y bwriad yw cynnal diwrnod agored ddydd Llun, 4 Chwefror, o 12.30pm tan 8pm, gyda gwahoddiad i ysgolion y dref drefnu i ddisgyblion ymweld yn ystod y prynhawn, a sesiwn galw heibio i unrhyw un â diddordeb yn y prosiect.
PENDERFYNWYD*: nodi'r diweddariad.*

179. DIWEDDARIAD YNGHYLCH STRATEGAETH GYFATHREBU CYNGOR TREF RHUTHUN

Adroddodd y Cynghorydd Dave Snape bod dau gyfarfod wedi'u cynnal, a bod y Cynghorydd Jabez Oakes yn rhoi mewnbwn i'r gweithgor hefyd. Byddai'r Strategaeth yn cwmpasu pob math o

gyfrwng, a bwriedir llunio canllawiau i Gynghorwyr ynghylch cyfathrebu a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Awgrymwyd hefyd y dylai Cyngor Tref Rhuthun gael tudalen Gweplyfr.
***PENDERFYNWYD**: nodi'r diweddariad.*

180. CYNRYCHIOLAETH AR GYRFF ALLANOL

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cynrychiolwyr Cyngor Tref Rhuthun ar Bwyllgor Rheoli Canolfan Awelon, gan fod y Cynghorydd Jim Bryan yn dymuno rhoi'r gorau i'r rôl oherwydd ymrwymiadau gwaith. Dywedodd y Clerc bod y Cynghorydd Keiran Allsopp-Robson wedi mynegi diddordeb. Trafodwyd y sefyllfa gan yr aelodau, a chan ystyried y byddai Canolfan Awelon yn cau'n fuan ar gyfer ailddatblygu a bod y Cynghorydd Heather Williams hefyd yn cynrychioli'r Cyngor Tref ar y Pwyllgor Rheoli, ac awgrymwyd nad oedd angen cynrychiolydd newydd.
***PENDERFYNWYD**: peidio â phenodi cynrychiolydd Cyngor Tref yn lle'r Cynghorydd Jim Bryan ar Bwyllgor Rheoli Canolfan Awelon.*

181. DIWEDDARIAD CYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y diweddariad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Cyfeiriodd y Cynghorydd Stephen Beach at ddatganiad y Gweinidog a'r trafodaethau am hyn yng nghyfarfod chwarterol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru.
***PENDERFYNWYD**: nodi'r diweddariad a'r camau nesaf mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu gweithredu i roi ei bolisi i gefnogi'r sector Cynghorau Cymuned a Thref ar waith, fel yr amlinellwyd yn y tabl Meysydd Gweithredu.*

182. YSWIRIANT ZURICH

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried adnewyddu premiwm yswiriant Cyngor Tref Rhuthun ar gyfer 2019-20 ar bris o £4,643.70 ynghyd â £496.72 am yswiriant yr Hen Lys.
***PENDERFYNWYD**: talu'r premiymau yswiriant i Zurich ar gyfer 2019-20 ar gyfanswm cost o £5,140.42.*

183. AMCANGYFRIFON ARIANNOL 2019-20

Gofynnwyd i'r aelod ystyried yr amcangyfrifon ariannol drafft a baratowyd gan y Clerc ar gyfer 2019-20 a'r symiau a ddyfarnwyd i'r gwahanol benawdau cyllideb a'r symiau wrth gefn. Cynigiwyd pennu'r praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod ar £142,830, sy'n cynrychioli cynnydd o £56.56 i £58.32 ar gyfer eiddo Band D a 4.98% o ran canran cyffredinol.
***PENDERFYNWYD:** to approve the financial estimates and send a precept requisition for £142,830 to Denbighshire County Council for 2019-20.*

184. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Rhagfyr 2018.
***PENDERFYNWYD:** derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Rhagfyr 2018.*

185. CYFRIFON I'W TALU

***PENDERFYNWYD**: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn.*

D.U.	BT Business	Gwasanaethau ffôn a band eang	*	£196.43
100093	SLCC	Adnewyddu aelodaeth ar gyfer 2019		£175.00
100094	Zurich Municipal	Yswiriant ar gyfer yr Hen Lys, 11.12.18 – 31.01.19		£72.13
100095	Cyngor Sir Ddinbych	Taliad balans prynu'r Hen Lys		£108,000.00
100096	Clwb Rotari Rhuthun	Cymorth ariannol i'r digwyddiad Rasus Mulod		£300.00
100097	Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a	2 ginio yn dilyn cyfarfod chwarterol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru, 18.01.19		£32.00

	Chanolbarth Cymru			
100098	Canda Copying Ltd	Rhentu llungopïwr a chopïau isafswm	*	£41.90
100099	Canda Copying Ltd	Copïau du a gwyn ychwanegol	*	£25.02
100100	Canda Copying Ltd	Copïau lliw ychwanegol	*	£21.84
100101	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol		£295.55
100102	Marian Rees	Gwasanaeth cyfieithu ar y pryd	*	£180.00
100103	Cyng. Gavin Harris	Ffi cais caniatâd cynllunio		£190.00
100104	Gwasanaeth Coed Cymru	Cyflenwi, gosod a gwaredu 5 coeden Nadolig	*	£1,466.40
100105	Fineline	200 papur pennawd llythyr A4		£70.31
100106	Cyngor Sir Ddinbych	Ffi cyfreithiol prynu'r Hen Lys and ffi Cofrestrfa Tir	*	£1,330.00

186. GRŴP DINESYDD DA

Gwnaed cais am aelod i ymuno gyda'r grŵp yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd Rosie Hughes. Enwebwyd y Cynghorydd Dave Snape a derbyniwyd yr enwebiad. Awgrymwyd dyddiad y cyfarfod nesaf fel dydd Llun, 28 Ionawr.

PENDERFYNWYD*: penodi'r Cynghorydd Dave Snape yn aelod o'r Grŵp Dinesydd Da a threfnu cyfarfod ddydd Llun, 28 Ionawr.*

187. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf fydd nos Lun, 25 Chwefror 2019 am 7.00pm.*